

**Comisiwn Seilwaith  
Cenedlaethol Cymru  
Adroddiad Blynyddol**

**2020**

# Cynnwys

**03 Neges gan y Cadeirydd**

**08 Cyfathrebu Digidol**

**09 Ynni**

**10 Trafnidiaeth**

## **Aelodau'r Comisiwn**

Dyma aelodau'r Comisiwn:

John Lloyd Jones OBE (Cadeirydd)

Yr Athro Tom Crick MBE

Ceri Doyle

Richard Feasey

Stephen Gifford

Helen Howells

Rob Irvine

Eluned Parrott

Yr Athro Roderick Smith

Chris Sutton

Emma Thomas

Tom Wharf

# Neges gan y Cadeirydd

**Eleni, rydym wedi rhannu'r heriau sydd wedi dod yn sgil pandemig COVID-19. Ers mis Mawrth, pan gyflwynwyd y cyfyngiadau symud i Gymru, rydym wedi gweld newidiadau enfawr i fywyd bob dydd. Mae rhai newidiadau a oedd eisoes ar y gweill wedi dod yn fwy amlwg, megis symud at batrymau gweithio hyblyg. Roedd newidiadau eraill, fel y gostyngiad dramatig mewn teithio, yn annisgwyl cyn COVID-19. Pa un a wnaethom eu rhagweld neu beidio, bydd llawer o'r newidiadau a brofwyd gennym yn effeithio ar y ffordd yr ydym yn defnyddio, yn adeiladu ac yn talu am seilwaith yn y tymor byr ac efallai am flynyddoedd lawer i ddod.**

**Diolch i bawb a ymatebodd i'n cais am dystiolaeth a'r llu o randdeiliaid sydd wedi ymgysylltu â'r comisiwn eleni. O ystyried bod cymaint yn digwydd ar hyn o bryd mae pobl wedi bod yn hael gyda'u hamser.**

**Nod y comisiwn o hyd yw rhoi cyfle i bawb wella'u llesiant drwy seilwaith newydd a gwell sy'n hybu twf economaidd ac yn gwarchod yr amgylchedd. Eleni aethom i'r afael â thair thema:**

## Digidol

Mae cysylltedd digidol wedi bod yn hanfodol yn ystod y pandemig, gan alluogi llawer ohonom i weithio gartref, cael gafael ar wasanaethau a chynnal cyswllt cymdeithasol. Mae'r rheini heb gysylltedd digidol da wedi bod o dan anfantais fawr. Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, rydym yn cyhoeddi ein hargymhellion ar Seilwaith Cyfathrebu Digidol yng Nghymru.

Rydym wedi dod i'r casgliad bod y dystiolaeth yn dangos bod cartrefi a busnesau yn debygol o gael manteision economaidd sylweddol yn sgil cael ffeibr i'r cartref yn ogystal â 5G. Mae ansawdd y cyfathrebiadau hyn yn hollbwysig wrth benderfynu ble mae busnesau twf uchel newydd yn dewis lleoli a ble mae pobl ifanc yn penderfynu byw. Ni allant fforddio disgwyl a byddant yn symud i rywle lle mae band eang cyflym a dibynadwy ar gael. Mae gormod o rannau o Gymru'n dal heb gysylltiad band eang digonol ac mae cyfleoedd eisoes yn cael eu colli.

Bydd sicrhau datblygiadau cyflym yn gofyn am fwy o gyfeiriad gan Lywodraeth Cymru. Dyna pam yr ydym yn argymhell, fel mater o frys, y dylai Llywodraeth Cymru ddisodli'r Grŵp Seilwaith Digidol Cymru gyfan cyfredol â thasglu 'chwalu rhwystrau' newydd dan arweiniad uwch swyddog gydag amcanion clir a dyddiadau cau i'w cyflawni. Byddai'r tasglu'n arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu canllawiau newydd ar ddefnyddio asedau cyhoeddus a threfn gynllunio newydd ar gyfer telathrebu (TAN 19). Byddai'n cysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn y gwaith o gyflwyno gwasanaethau digidol, fel Network Rail ac Asiantaethau Cefnffyrdd Gogledd a De Cymru.

Mae gan Lywodraeth y DU bolisi clir ar gyfer ymestyn ffeibr i'r cartref i bob cartref yn y DU erbyn 2025. Nod ein hadroddiad yw helpu Llywodraeth Cymru i sefydlu ei strategaeth cyfathrebu digidol ei hun i ddiwallu anghenion Cymru yn y ffordd orau bosibl.

Rydym yn cefnogi awydd Llywodraeth y DU i uwchraddio seilwaith digidol sefydlog ac yn credu y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyfran briodol o'r arian yn cael ei sicrhau ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod targed Llywodraeth y DU o gael ffeibr i bob cartref erbyn 2025 yn realistig ac rydym yn poeni bod yr heriau penodol sy'n gysylltiedig â darparu ffeibr yng Nghymru – lle mae dwysedd y boblogaeth yn is, lle mae'r galw'n wannach a'r topograffi'n fwy heriol – yn golygu y bydd cartrefi a busnesau Cymru yng nghefn y ciw.

Credwn hefyd fod gormod o sylw wedi'i roi i hyrwyddo ffeibr i'r cartref a dim digon i wella'r ddarpariaeth band eang symudol. Credwn y gall ac y dylai Cymru wneud mwy gyda'i seilwaith symudol. Dim ond 3% o'r holl ddata sy'n cael ei gludo ar rwydweithiau'r DU sy'n cael ei gludo ar rwydweithiau symudol heddiw, sy'n gyfran is o lawer nag mewn mannau eraill yn Ewrop. Gall cysylltiadau band eang symudol 'cartref' fod yn ddewis da, rhad i fusnesau a chartrefi mewn ardaloedd gwledig, yn barhaol neu nes bydd ffeibr i'r cartref yn cyrraedd.

Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno â gweithredwyr symudol i gyflwyno Rhwydwaith Gwledig a Rennir newydd a ddylai wella'r ddarpariaeth symudol yn sylweddol yn y DU ac yng Nghymru,

gyda chymorth gwerth £500 miliwn o arian cyhoeddus. Dylai Llywodraeth Cymru ddilyn yr enghraifft hon ac ystyried gyda'r diwydiant a ellid cymryd camau eraill, gan gynnwys drwy ddarparu rhagor o arian cyhoeddus, i wella'r ddarpariaeth symudol ymhellach, yn enwedig 5G.

Mae argymhellion eraill i'w gweld yn ein hadroddiad.

## Ynni

Un arall o'n blaenoriaethau ar gyfer 2020 oedd ynni. Mae'r DU yn parhau i wneud cynnydd o ran datgarboneiddio'r system ynni. Roedd cyfran ynni adnewyddadwy o'r trydan a gynhyrchwyd yn y DU yn 47% yn chwarter cyntaf 2020<sup>1</sup> a 45% yn yr ail chwarter<sup>2</sup>. Mae'r naill a'r llall yn uwch o lawer na'r record chwarterol flaenorol o 39% a osodwyd yn ystod haf 2019.

Mae ynni'n rhan allweddol o gyflawni nodau Cymru o ran hinsawdd, ond cyfyngedig yw'r pwerau datganoledig sydd gan Lywodraeth Cymru dros ynni. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i roi targed lleihau allyriadau o 95% ar waith drwy gyfraith, gydag uchelgais i gyrraedd sero net erbyn 2050.

Cytunwn fod yn rhaid i Gymru ddatgarboneiddio ei system ynni. Ond byddai'n ddefnyddiol cael mwy o eglurder ynghylch yr hyn y mae Cymru am ei gyflawni cyn gwneud penderfyniadau ynghylch sut i fynd ati. Ai'r flaenoriaeth y dylem ei dewis yw sicrhau sefydlogrwydd y cyflenwad, cynhyrchu refeniw, creu swyddi, darparu sefydlogrwydd prisiau i ddefnyddwyr yng Nghymru, neu ryw opsiwn arall? Mae biliau ynni eisoes yn uchel ac

<sup>1</sup> Tueddiadau Ynni: Mehefin 2020, BEIS [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/894917/Energy\\_Trends\\_June\\_2020.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/894917/Energy_Trends_June_2020.pdf)

<sup>2</sup> Tueddiadau Ynni: Medi 2020, BEIS [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/920544/Energy\\_Trends\\_September\\_2020.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/920544/Energy_Trends_September_2020.pdf)

mae llawer o bobl yn cael trafferth gyda thlodi tanwydd. Mae gwleidyddion a rheoleiddwyr yn canolbwyntio ar ddiogelu talwyr biliau. Ond er mwyn datgarboneiddio'r system ynni, bydd angen buddsoddi'n sylweddol mewn seilwaith. Mae'r system ynni'n gymhleth ac mae cwestiynau'n parhau ynghylch pa seilwaith i'w ddatblygu a sut i'w ariannu.

Mae'n amlwg bod yn rhaid i ni barhau i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon, lleihau allyriadau carbon o danwydd ffosil a chynyddu'r trydan a gynhyrchir o ffynonellau adnewyddadwy a charbon isel. Bydd arnom angen mwy o gynhyrchu ynni adnewyddadwy os ydym am ddiwallu'r galw cynyddol am drydan drwy ddatgarboneiddio gwres a thrafnidiaeth.

Ehangwyd y grid trydan yn sylweddol yn y 1960au i gludo pŵer o orsafoedd pŵer glo traddodiadol i'r dinasoedd a'r trefi lle mae trydan yn cael ei ddefnyddio. Mae cyflwyno mwy a mwy o gynhyrchu ynni adnewyddadwy, fel gwynt a solar, sy'n aml yn cael eu datblygu mewn ardaloedd gwledig neu ar y môr, nawr yn golygu bod y rhwydweithiau trydan yn addasu i gysylltu'r genhedlaeth newydd hon â lle mae angen yr ynni.

Mae ychwanegu cyflenwad pŵer newydd neu alw newydd at y system yn golygu bod angen bod yn agos at bwyntiau cyswllt grid addas ac ystyried y capasiti a'r cyfyngiadau sydd ar gael ar y grid presennol.

Mae atgyfnerthu'r grid ac ychwanegu seilwaith grid newydd yn ddrud, gyda chostau'n disgyn ar y sawl sy'n talu'r bil.

Yn sicr, mae angen buddsoddi yn y grid ond mae cwestiynau'n parhau ynghylch graddfa a lleoliad datblygiadau a sut y telir amdanynt. I ryw raddau, bydd y llwybrau datgarboneiddio rydym yn dewis eu dilyn yn dylanwadu ar y penderfyniadau hyn.

Rydym wedi nodi ein cynlluniau ar gyfer rhagor o waith ar y pynciau hyn dros y flwyddyn nesaf yn yr adran ar Ynni isod.

## Trafnidiaeth

Mae COVID-19 wedi effeithio'n fawr ar deithio. Ym mis Ebrill, dim ond 26% o'r lefelau cyn COVID-19 a deithiodd cerbydau (VMT) yn y DU<sup>3</sup>. Bu llawer o bobl yn cnoi cil ar absenoldeb tagfeydd ar adegau prysur a gwelliannau yn ansawdd yr aer. Erbyn mis Mehefin roedd VMT wedi dychwelyd i 67% o'r lefelau cyn COVID-19. Mae'n ymddangos bod beicio a cherdded wedi cynyddu<sup>4</sup>, tuedd rydym yn ei hannog a byddwn yn ei gwyllo gyda diddordeb. Ond gyda'r gostyngiad sylweddol yn y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, mae colledion refeniw yn debygol o effeithio ar gynlluniau i ddatblygu gwasanaethau yn y dyfodol agos.

Mae system drafnidiaeth effeithiol yn dal yn hanfodol i lwyddiant ein heconomi. Mae'n cefnogi creu swyddi, yn lleihau costau ac yn gwella cynhyrchiant. Rhaid cludo nwyddau. Ni ellir gwneud yr holl waith gartref. Mae llawer yn byw bywydau ynysig, ac mae trafndiaeth gyhoeddus aml, effeithlon a rhesymol ei phris yn helpu pobl i gadw mewn cysylltiad.

<sup>3</sup> Ymateb Teithio Teithwyr Ewropeaidd i COVID-19, Inrix <https://inrix.com/campaigns/impact-of-covid-19-on-transportation-in-europe/>

<sup>4</sup> <https://llyw.cymru/cyfile-auraid-am-newid-y-dirprwy-weinidog-lee-waters>

Mae llawer o'r rhwydwaith presennol wedi'i etifeddu o orffennol Cymru, wedi'i ddatblygu i gludo deunyddiau crai a nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu. Mae rhai gwasanaethau rheilffyrdd yn orlawn yn ystod adegau prysur cymudwyr ond fel arall nid ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol. Mae nifer y teithwyr ar fysiau wedi gostwng yn sylweddol wrth i brisiau tocynnau godi ac wrth i amllder ostwng. I lawer, y car preifat yw'r ateb o hyd.

Mae COVID-19 wedi arwain at ostyngiad enfawr yn y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus. Gall gymryd amser i fagu hyder eto ond os a phan fydd niferoedd teithwyr yn dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig, bydd awr brysur y bore'n parhau i roi pwysau aruthrol ar rwydweithiau trafndiaeth.

Mewn ardaloedd gwledig, mae trafndiaeth gyhoeddus yn aml yn cael ei chyfyngu oherwydd dwysedd poblogaeth isel, gyda'r canlyniad bod cymunedau gwledig yn fwy dibynnol ar geir. Gall rhoi cymunedau wrth galon cynllunio'r system drafnidiaeth o'r cychwyn arbed amser ac arian, yn ogystal â sicrhau ein bod yn gallu cysylltu â'r rhai sy'n wynebu'r anfanteision a'r unigedd mwyaf.

Mae ein gwaith ar drafnidiaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf wedi'i amlinellu yn yr adran Drafnidiaeth isod.

## Rheoli dŵr a gwastraff

Nodwedd arall annymunol yn 2020 oedd amllder a difrifoldeb y llifogydd. Ym mis Chwefror, daeth stormydd Ciara, Dennis a Jorge â llifogydd i bob rhan o Gymru. Unwaith eto ym mis Mehefin a mis Awst, arweiniodd glaw trwm at lifogydd mewn cannoedd o gartrefi a busnesau, rhai ohonynt am y pedwerydd tro yn y flwyddyn. Dylem ddisgwyl i'r patrwm glawiad hwn ddod yn nodwedd o'n hinsawdd wrth iddi newid. Yn anffodus, fel y gwelsom gyda'r trê'n a aeth oddi ar y cledrau yn Stonehaven, yr Alban, mae digwyddiadau tywydd fel hyn yn her i gadernid ein seilwaith. Mae hwn yn faes rydym yn bwriadu ei gryfhau ymhellach dros y flwyddyn nesaf.

Yng Nghymru, seilwaith yw un o'r defnyddwyr mwyaf o adnoddau ac mae'n cynhyrchu mwy o wastraff nag unrhyw sector arall. Rydym wedi cael trafodaethau archwiliadol gyda Chynghrair Seilwaith Cymru a rheoleiddwyr ynghylch dŵr, effeithlonrwydd adnoddau a gwastraff. Yr ydym yn cydnabod rôl allweddol seilwaith wrth drosglwyddo i economi gylchol a byddwn yn ymchwilio ymhellach i'r mater y flwyddyn nesaf.

## Materion Eraill

Mae nifer o ffactorau wedi llesteirio ein gallu i fynd i'r afael â'r materion roeddem wedi'u nodi yn ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2019. Cyfyngodd pandemig COVID-19 ar ein gallu i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ôl mis Mawrth 2020, yn ogystal â lleihau capasiti comisiynwyr i ymgysylltu â'i gilydd a lleihau'r cymorth i staff gan Lywodraeth Cymru (ac mae'n ddealladwy bod rhai staff wedi cael eu hadleoli i ddyletswyddau eraill). Roedd pandemig COVID-19 hefyd yn golygu nad oedd modd inni gytuno'n derfynol gyda Llywodraeth Cymru ar yr adnoddau ariannol pwrpasol a gâi eu darparu i'n galluogi i gomisiynu gwaith gan arbenigwyr allanol ar nifer o'r materion lle roeddem yn teimlo bod angen gwneud hynny. Heb y gefnogaeth hon, mae wedi bod yn anodd i ni ddatblygu safbwynt gwybodus neu gasglu tystiolaeth ar rai materion. Nid oeddem yn gallu cynhyrchu adroddiadau ac argymhellion cynhwysfawr ar faterion ynni a thrafnidiaeth o ganlyniad. Mae ein hadroddiad ar seilwaith cyfathrebu digidol yn ganlyniad i waith a wnaed yn wirfoddol gan mwyaf gan gomisiynwyr unigol sy'n arbenigwyr yn y maes hwn.

Adeg cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol hwn, mae pandemig COVID-19 yn dal i lesteirio gwaith y comisiwn. Bydd ein gallu i gyflawni'r rhaglen waith a amlinellwn yn yr adroddiad hwn yn dibynnu i raddau helaeth ar ba un a fydd yr amodau hyn yn newid, a pha bryd, sy'n ansicr. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio bod y rhaglen waith a gyflwynwn yn yr adroddiad hwn yn tybio y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid digonol i'n galluogi i gomisiynu'r gwaith ychwanegol sy'n ofynnol yn ein barn ni er mwyn i ni lunio argymhellion cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynglŷn ag ynni a thrafnidiaeth.



**John Lloyd Jones**  
**OBE FRAGS Hon FLI**

# Cyfathrebu Digidol

**Yn 2020 roeddem yn gweithio ar adroddiad Seilwaith Cyfathrebu Digidol yng Nghymru (DCIW) sy'n cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol hwn. Rydym yn rhoi disgrifiad yn adroddiad Seilwaith Cyfathrebu Digidol yng Nghymru o'r gwaith a wnaethom yn ystod y flwyddyn a'r sefydliadau roeddem wedi ymgysylltu â nhw wrth baratoi'r adroddiad. Mae penodau 4 a 7 adroddiad Seilwaith Cyfathrebu Digidol yng Nghymru yn crynhoi'r dystiolaeth a gawsom gan randdeiliaid yn ystod ein hymchwiliad, ac rydym yn ddiolchgar am hynny.**

Ein bwriad ar gyfer 2021 yw ymgysylltu'n gyntaf â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod cynnwys adroddiad Seilwaith Cyfathrebu Digidol yng Nghymru yn cael ei gyfleu a'i ddeall. Mae'r gweithgareddau fydd yn dilyn yn dibynnu ar a yw Llywodraeth Cymru yn penderfynu mabwysiadu rhai o'r argymhellion neu'r holl argymhellion yn yr adroddiad. Mater i Lywodraeth Cymru ei hun yw hyn ond mae'r comisiwn yn barod i gynorthwyo ym mha bynnag ffordd sydd fwyaf priodol.

Er nad ydym wedi gwahodd rhagor o sylwadau yn dilyn cyhoeddi adroddiad Seilwaith Cyfathrebu Digidol yng Nghymru, efallai y byddwn yn cael mewnbwn yn ystod ein trafodaethau â rhanddeiliaid a byddwn yn ystyried pa waith pellach, os o gwbl, sydd angen ei wneud ar gyfathrebiadau digidol yng ngoleuni'r rhain. Ar hyn o bryd nid ydym yn disgwyl cynnal rhagor o waith casglu tystiolaeth sylweddol ynglŷn â chyfathrebu digidol yn 2021.



# Ynni

Mae COVID-19 wedi effeithio ar rai o'n gweithgareddau arfaethedig eleni. Bu'n rhaid gohirio ymweliadau â rhanddeiliaid ynni'r môr ym mis Mawrth ac ers hynny rydym wedi cael ein cyfyngu i gyfarfodydd ar-lein. Fodd bynnag, rydym yn ddiolchgar i'r cydweithwyr niferus sydd wedi siarad â ni, gan gynnwys y rheini o: Arup, Prifysgol Caerdydd, Ynni Sir Gâr, Ynni Cymunedol Cymru, Energy Local, Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru, National Grid, y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol, National Power, Ofgem, Porthladd Aberdaugleddau, RenewablesUK Cymru, Scottish Power Networks, Prifysgol Abertawe, UK100, Wales and West Utilities, Llywodraeth Cymru, Western Power Distribution a WSP. Mae'r trafodaethau hyn wedi bod yn ychwanegiad gwerthfawr at y sylwadau a gawsom mewn ymateb i'n Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2019, ac rydym hefyd yn ddiolchgar am hynny.

Dros y cyfnod o 5-30 mlynedd y mae'r comisiwn hwn yn ei ystyried, gallwn ddisgwyl gweld newidiadau sylweddol yn y ffordd y caiff ynni ei gynhyrchu, ei gludo a'i ddefnyddio. Yn y flwyddyn i ddod, bwriadwn archwilio sut y byddwn yn diogelu ein rhwydweithiau ynni yng Nghymru yn y dyfodol, gan archwilio ein parodrwydd ar gyfer rhwydweithiau clyfar a thechnolegau trawsyrru newydd.

Byddem yn croesawu rhagor o dystiolaeth ar oblygiadau economaidd ac ymarferol newidiadau i drawsyrru ynni i ddefnyddwyr unigol, i ddiwydiant ac i gymdeithas. Byddem hefyd yn croesawu tystiolaeth ar effaith newid mewn tueddiadau ynni ar ddiogelwch ynni Cymru.

Mae cynhyrchu ynni'r môr wedi cael ei gynnig yng Nghymru ers blynyddoedd lawer, ond hyd yma mae'r "Economi Las" yng Nghymru ar gam cynnar yn ei datblygiad. Gydag amodau llanw a thonnau da mewn sawl lleoliad ar hyd arfordir Cymru, mae potensial cudd i sector ynni'r môr greu swyddi mewn cymunedau gwledig ac arfordirol difreintiedig a chyfrannu at anghenion ynni carbon isel Cymru. Bwriadwn ymchwilio i weld a all Cymru oresgyn y rhwystrau ymarferol sydd wedi atal datblygiadau blaenorol rhag llwyddo, a sut mae modd gwneud hynny.

Byddem yn croesawu tystiolaeth ar oresgyn y rhwystrau rhag cyflwyno cynlluniau ynni'r môr.

# Trafnidiaeth

Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion a gawsom i'r cais am dystiolaeth sydd wedi'u cynnwys yn ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2019. Mae'r dystiolaeth a gawsom wedi dylanwadu ar ein ffordd o feddwl a bydd yn ymddangos mewn adroddiadau yn y dyfodol gan y comisiwn. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i gasglu tystiolaeth drwy gyfarfodydd â rhanddeiliaid, gan gynnwys: Keolis, y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol, Network Rail, Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru a Thrafnidiaeth Cymru. Ac rydym wedi cynnal trafodaethau mewn digwyddiadau gan gynnwys Cynhadledd Priffyrdd Cymru. Yn anffodus, nid oedd rhai digwyddiadau eraill yn gallu mynd rhagddynt oherwydd COVID-19.

Mae Strategaeth Drafnidiaeth newydd Llywodraeth Cymru wedi bod yn ganolbwynt i'n sylw yn ystod y flwyddyn. Bydd y strategaeth yn gosod y weledigaeth hirdymor ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru ac rydym yn teimlo ei bod yn bwysig ein bod yn dylanwadu ar ei datblygiad gystal ag y gallwn. Byddwn yn parhau i gynghori Llywodraeth Cymru wrth iddi weithio tuag at gyhoeddi'r strategaeth yn ystod gwanwyn 2021.

Un o themâu Adroddiad Blynyddol 2019 oedd cadernid. Mae effaith newid yn yr hinsawdd a'r risg gynyddol o dywydd eithafol yn her benodol i seilwaith trafnidiaeth Cymru, ac mae llifogydd, tirlithriadau a choed wedi cwmpo yn effeithio ar lawer o brif rwydweithiau ffyrdd a rheilffyrdd Cymru yn rheolaidd. Mae'r ffaith bod gwasanaeth teithwyr ger Stonehaven yn yr Alban wedi dod oddi ar y cledrau yn ddiweddar yn ein hatgoffa bod digwyddiadau o'r fath yn peri risg i fywyd, nid dim ond risg i ddatblygu

economaid drwy darfu. Dros gyfnod o 5-30 mlynedd, mae'n rhesymol disgwyl y bydd amllder a difrifoldeb digwyddiadau tywydd o'r fath yn cynyddu, ac felly mae cadernid ein rwydweithiau trafnidiaeth yn bryder allweddol y bwriadwn ei archwilio. Byddem yn croesawu tystiolaeth ar y materion hyn ac, yn benodol, dystiolaeth gan gyrff trafnidiaeth ar eu strategaethau rheoli risg yng nghyswllt newid tymor hir yn yr hinsawdd.

Gan barhau â'n gwaith ar wella cysylltedd strategol, byddwn yn astudio canfyddiadau Adolygiad Turner o Godi Tâl ar Ddefnyddwyr Ffyrdd yng Nghymru ac adroddiad terfynol Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru cyn cyhoeddi adroddiad byr ar y goblygiadau i goridau trafnidiaeth strategol Gogledd Cymru.

Gallai'r symud tuag at weithio o bell a chwrdd ar-lein sydd wedi cael ei fabwysiadu'n helaeth yn ystod pandemig COVID-19 arwain at oblygiadau tymor hir o ran teithio, er enghraifft rhwng Gogledd a De Cymru. Mae ein hargymhellion ar seilwaith cyfathrebu digidol yn berthnasol yma.

Mae trafnidiaeth yn cynrychioli chwarter defnydd Cymru o ynni<sup>5</sup>. Felly, mae datgarboneiddio trafnidiaeth yn hanfodol er mwyn cyrraedd targedau carbon Llywodraeth Cymru. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom rannu'r dystiolaeth a gawsom ar barodrwydd Cymru ar gyfer cerbydau allyriadau sero gyda Llywodraeth Cymru i gyfrannu at ei strategaeth cerbydau trydan. Byddwn yn parhau i ddylanwadu ar bolisi sy'n datblygu yn y maes hwn yn ystod y flwyddyn i ddod.

<sup>5</sup> Defnydd o Ynni yng Nghymru 2018, Llywodraeth Cymru <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-06/defnydd-o-ynni-yng-nghymru-2018.pdf>

Mater arall y cawsom dystiolaeth yn ei gylch oedd gwella trafndiaeth yng nghefn gwlad Cymru. Rydym yn cydnabod nad yw Cymru wledig yn ardal unffurf sydd ag un set o anghenion trafndiaeth. Fodd bynnag, yn aml mae angen i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig deithio'n gymharol bell i gael mynediad at waith a gwasanaethau. Mae trafndiaeth gyhoeddus yn aml yn cael ei chyfyngu oherwydd dwysedd poblogaeth isel, gyda'r canlyniad bod cymunedau gwledig yn fwy dibynnol ar geir na Chymru drwyddi draw. Mae newidiadau yn y defnydd o drafnidiaeth, patrymau gweithio digidol a lefelau ffyrlo wedi rhoi cipolwg defnyddiol ar y ffordd y mae strwythur yr economi wledig, ynghyd â mynediad at asedau a gwasanaethau cymunedol, yn debygol o effeithio ar anghenion trafndiaeth wledig yn y dyfodol. Mae hwn yn fater y byddwn yn dod yn ôl ato yn 2021.

Y mater olaf y gofynnwyd am dystiolaeth arno yn ein Hadroddiad Blynyddol diwethaf oedd sut y gall polisi cyhoeddus leihau'r angen i bobl deithio. Er bod pandemig COVID-19 wedi tarfu ar batrymau teithio tymor byr yng Nghymru, bydd peth amser cyn i arferion teithio a gweithio gartref sy'n para yn y tymor hwy ddod yn eglur. Mae gennym ddiddordeb mewn archwilio i ba raddau y mae strwythur economi a gweithlu Cymru, cynllunio tir a gwasanaethau cyhoeddus yn ei gwneud yn bosibl lleihau'r angen i deithio. Rydym hefyd wedi nodi'r ymdrechion i alluogi mwy o ddefnydd o deithio llesol eleni a byddem yn croesawu tystiolaeth ar yr ymyriadau teithio llesol sydd wedi bod yn effeithiol o ran sicrhau newid mewn ymddygiad mewn dinasoedd, rhanbarthau a gwledydd eraill.

## Sut i ymateb

Dylid anfon ymatebion drwy e-bost at:

[ComisiwnSeilwaithCenedlaetholCymru@llyw.cymru](mailto:ComisiwnSeilwaithCenedlaetholCymru@llyw.cymru)

Dylech gyflwyno eich tystiolaeth cyn dydd Gwener 26 Mawrth 2021. Mae'n bosibl na fydd tystiolaeth a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwnnw yn cael ei hystyried.

Os oes angen rhagor o wybodaeth neu eglurhad arnoch, bydd ysgrifenyddiaeth y comisiwn yn cysylltu â chi.

Byddai ysgrifenyddiaeth y comisiwn yn fwy na pharod i ateb unrhyw gwestiynau drwy e-bost yn y cyfeiriad uchod.

## Datganiadau preifatrwydd a Rhyddid Gwybodaeth

Mae'n bosibl y byddwn yn cyhoeddi ymatebion sy'n dod i law. Os ydych chi'n credu bod rheswm pam y dylai eich ymateb neu unrhyw ran ohono gael ei ystyried yn gyfrinachol, rhowch fanylion os gwelwch yn dda. Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu ddeddfwriaeth berthnasol arall.

Os ydych chi am i wybodaeth rydych chi'n ei rhoi gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â chod ymarfer statudol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth sy'n ymdrin â rhwymedigaethau cyfrinachedd, ymysg pethau eraill.

O gofio hyn, byddai'n ddefnyddiol pe baech chi'n gallu esbonio pam rydych chi'n ystyried yr wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi yn gyfrinachol. Os bydd y comisiwn yn cael cais am ddatgelu'r wybodaeth, bydd yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni all roi sicrwydd y bydd modd cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad.

Bydd y comisiwn yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith diogelu data berthnasol.